

Don Treharne yn Hela'r Adar o'r Unlliw

Yn ddiweddar, deuthum o hyd i blât a addurnwyd yn llawrydd mewn lliw glas llachar. Ar yr olwg gyntaf roeddwn yn barod ei ddweud, heb lawer o amheuaeth, mai llestr o Lanelli oedd o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Wedi cael y plât yn fy nwylo, buan y sylweddolais nad oeddwn yn gywir am ei fod o ansawdd nad oedd yn nodweddiadol o lestri Llanelli o'r cyfnod hwnnw. Roedd y clai yn llawer rhy wyn ei olwg a'i siâp yn un na ddefnyddiwyd yn aml, os o gwbl, yn Llanelli.

Fel y dengys *Llun 1*, crëyr glas yw'r aderyn a addurnwyd. Mae Jâms Nicholas yn ei englyn 'Y Crëyr Glas' yn ei ddisgrifio i'r dim:

Hen wylwr godre'r geulan – a'i olwg
Yn ddrychiolaeth syfrdan;
Ei war crwm fel tô cryman
A'i bwysau ar goesau gwlan.

Ar gefn y plât mae marciau rhy aneglur i groniclo ar lun ond sy'n dweud llawer am ei darddiad. Mae'r gwasgfar 'BRISTOL' yn cyhoeddi mai ym Mryste y'i gwnaethpwyd a'r marc troslun 'Bristol "Stork" Pottery' yn rhoi enw'r patrwm. Yn nhyb Crochendy Bryste, felly, storc (neu ciconia) ac nid crëyr yw'r aderyn.



Llun 1

ddiddorol. Er nad ydynt yn efeilliaid o'r un ffunud, maent yn perthyn yn agos. Dengys *Llun 3* aderyn tebyg eto, ond y tro yma cyfyngwyd yr addurno i ganol y plât. I'r cyfarwydd, â'r plât yn ei law, mae'n amlwg yn gynnyrch o Lanelli. Nid oes eisiau edrych ar y marc 'Llanelly' mewn troslun gwyrdd ar ei gefn i wireddu'r priodoli. Credir fod y marc yma'n un a ddefnyddiwyd gan Samuel Walter Shufflebotham yn Llanelli ac mai ei waith cywrain ef yw'r addurno ar y plât.

Daeth Shufflebotham, a anwyd yn Swydd Stafford, i Lanelli, tua 1908, o Fryste, lle bu'n gweithio yng Nghrochendy Poutney a sefydlwyd yn ardal Fishponds yn y ddinas honno. Ym Mryste, daeth dan ddylanwad George, yntau'n dod



Llun 2

Serch hynny, mae ei war yn grwm a'i goesau'n wan! Yn ychwanegol i hyn y mae'r llythrennau 'JB'. Ni wyddom pwy yw 'JB' gan nad oes cyfeiriad ysgrifenedig ato yn unman, ond yn sicr ef a addurnodd y plât. Ymddangosa'r llythrennau yna ar lestri o batrymau eraill yn deillio o Fryste o'r un cyfnod.

Mae *Llun 2* yn dangos aderyn tebyg i'r un yn y llun gyntaf ac y mae ar lestr o Lanelli o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Er nad oes marc arno, mae ansawdd crochenwaith y plât yn ddigon o dystiolaeth i'w briodoli i Lanelli. Mae tebygrwydd y steil o addurno a welir ar y ddau blât – un o Lanelli a'r llall o Fryste – yn



Llun 3